

Cefndir i'r Ddeiseb Heddwch 2017

a ysbrydolwyd gan yr apêl oddi wrth fenywod Cymru 1923

Ym 1923 anfonwyd deiseb wedi'i harwyddo gan 390,296 o fenywod yng Nghymru at fenywod America.

Heb na facebook na theledu i'w helpu roedd hyn yn gamp anhygoel. Poeni am gyflwr y byd oedd y menywod hyn ac roedden nhw eisiau heddwch. Ar ôl holl ddiodefaint y Rhyfel Mawr, roeddynt am weld Cynghrair y Cenhedloedd yn cyfrannu at fydd heb ryfel.

Cyflwynwyd y ddeiseb mewn cynhadledd yn Efrog Newydd a oedd yn cynrychioli 20,000 o fenywod America. Y cam nesaf oedd ei chyflwyno i Calvin Coolidge, Llywydd America a Phwyllgor Llys y Byd yn Washington.

Ym 1922 sefydlwyd Cyngor Cymreig Cynghrair y Cenhedloedd. O fewn tair blynedd roedd ganddynt 571 cangen a 31,299 aelod ar draws Cymru. Gyda bendith y Cyngor, dosbarthwyd y ddeiseb i bob tŷ a fferm. Arwyddwyd y ddeiseb gan 60% o fenywod Cymru.

Mewn cyfarfod o Gymdeithas y Grawnwin ym Mhorthmadog ym mis Ebrill 2017, clywsom am Ddeiseb 1923 a gwelsom ffilm o orymdaith menywod 1926 yn deheu am gyfraith gwlad a fyddai'n atal Prydain rhag mynd i ryfel eto heb fynd trwy broses ddiplomyddol.

Ysgogodd hyn ar y penderfyniad i ail-greu Deiseb Heddwch ac ymuno â'r ymgyrch i ddod o hyd i lofnodion y ddeiseb wreiddiol (credir ei bod yn Amgueddfa y Smithsonian yn Washington).

Yn 2017 rydym ni, yn fenywod a dynion yn poeni am fod pethau sy'n digwydd yn ein byd ni heddiw sydd yn ddychryn ofnadwy i ni. Rydym yn arwyddo'r ddeiseb hon er mwyn dweud ein bod ni eisiau byd heddychlon, byd â'i sylfeini mewn cyfartaledd a chyfiawder cymdeithasol, byd lle nad yw pobol yn gwrthod ei gilydd oherwydd lliw eu croen, eu rhywioldeb, eu cenedl, yr iaith mae nhw'n ei siarad na'u crefydd.

Rydym ni'n awyddus i gyflwyno'r ddeiseb hon yn America fel y gwnaeth menywod Cymru ym 1923. Ond yn gyntaf rydym am ddosbarthu'r ddeiseb ar bapur ac yn ddigidol gyda'r nod o gasglu 400,000 llofnod.

A wnewch chi ein cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ddychwelyd y Cenhedloedd Unedig at ei bwrpas gwreiddiol, sef atal rhyfeloedd a chreu lle i heddwch?

Cewch fwy o wybodaeth am hanes menywod y 20au a'r ymdrechion i hel llofnodion deiseb 2017 ar wefan Cymru dros Heddwch a thudalen Facebook Deiseb Heddwch 2017.